



GWEITHDREFN AR GYFER CAM 3: CEISIADAU AM ADOLYGIAD O GAM 2 CAMYMDDYGIAD AC ADDASRWYDD I YMARFER

Egwyddorion cyffredinol

1. Mae gan fyfyrwyr yr hawl i ofyn am adolygiad yn erbyn unrhyw sancsiwn a osodwyd o dan y [Rheoliadau Camymddygiad ac Addasrwydd i Ymarfer Myfyrwyr](#) a'r Gweithdrefnau cysylltiedig.
2. Mae ceisiadau am adolygiad mewn perthynas â Chamymddwyn Myfyrwyr Llai Difrifol/Achos Pryder Cam 1, Cwynion Myfyrwyr, Apeliadau Academiaidd a phenderfyniadau'r Panel Asesu Risg ar wahân i'r Weithdrefn hon, lle mae'r broses i'w dilyn wedi'i hamlinellu o dan bob Gweithdrefn.
3. Rhaid cyflwyno'r cais am adolygiad ar y ffurflen briodol i'r Adran Gwaith Achos Myfyrwyr o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl hysbysu'r canlyniad.

Sail dros adolygiad

4. Rhaid i fyfyrwyr ddangos o leiaf un o'r seiliau canlynol wrth ofyn am adolygiad:
 - a) *Cyflwynir tystiolaeth newydd neu amgylchiadau esgusodol na allai'r Myfyriwr sy'n Ymateb fod wedi'u gwneud yn hysbys yn rhesymol ar adeg y penderfyniad gwreiddiol.*
 - b) *Mae tystiolaeth o afreoleidd-dra wrth gynnal achos mor arwyddocaol fel ei fod yn achosi amheuaeth resymol ynghylch a fyddai'r un penderfyniad wedi'i gyrraedd, pe na baent wedi digwydd.*
 - c) *Gellir dangos bod y canfyddiadau a'r argymhellion yn anghymesur, o ystyried amgylchiadau'r achos.*
5. Cyfrifoldeb y Myfyriwr sy'n Ymateb yw darparu tystiolaeth i ddangos bod un neu fwy o'r seiliau a nodwyd ym mhwynt 4 uchod yn berthnasol.

Ystyried y cais am adolygiad

6. Bydd y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn ystyried y cais am adolygiad a gall ei wrthod yn yr amgylchiadau canlynol:
 - a) Ni chyflwynwyd y cais am adolygiad o fewn yr amserlen benodedig.
 - b) Nid yw'r sail dros adolygiad fel y'i nodir o dan bwynt 4 wedi'i dangos yn ddigonol i warantu ystyriaeth bellach gan Banel.
 - c) Nid yw'r cais am adolygiad wedi'i gefnogi'n briodol â thystiolaeth.

This document is available in English. / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

7. Os bydd y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn penderfynu nad yw'r achos yn gymwys i'w ystyried ymhellach, bydd y Myfyriwr sy'n Ymateb yn cael Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau. Bydd hyn yn eu galluogi i fynd â'u hachos i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch, os byddant yn parhau i fod yn anfodlon â'r canlyniad.
8. Os bydd y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn ystyried bod yr achos yn gymwys i'w adolygu, bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at Banel Adolygu.
9. Bydd penderfyniad y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn cael ei gyfleu i'r Myfyriwr sy'n Ymateb o fewn pum niwrnod ar ôl derbyn y cais am adolygiad a'r holl dystiolaeth ategol.
10. Os yw'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn brentis/myfyriwr Plismona Gweithredol, bydd Deon y Gyfadran (neu enwebai) yn hysbysu eu cyflogwr.

Panel Adolygu

11. Cynhelir gwrandawriad y Panel Adolygu o fewn 20 diwrnod gwaith i atgyfeirio yr achos. Gellir ymestyn yr amserlen hon gyda chytundeb â'r Myfyriwr sy'n Ymateb neu, mewn amgylchiadau eithriadol, gan y Brifysgol.
12. Bydd y Panel Adolygu wedi'i ffurfio fel a ganlyn:
 - Is-Ganghellor (neu enwebai);
 - aelod o'r uwch reolwyr.

Os bydd gwahaniaeth barn rhwng dau aelod panel, bydd gan yr Is-Ganghellor (neu enwebai) y bleidlais fwrw.

Bydd Ysgrifennydd yn gwasanaethu'r Panel Adolygu, nad yw'n aelod ond a fydd yn bresennol drwy gydol y trafodion. Yr Ysgrifennydd fydd y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai).

Ni fydd aelodau'r Panel Adolygu wedi cael unrhyw gyswllt blaenorol â'r achos nac unrhyw gysylltiad â chi.

Os yw'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn brentis/myfyriwr Plismona Gweithredol, bydd cynrychiolydd cyflogwr hefyd yn cael ei wahodd i fynychu fel arsylwr.

13. Gall y Panel Adolygu benderfynu:
 - a) Dylid cadarnhau'r canlyniad gwreiddiol.
 - b) Ni ddylid cadarnhau'r canlyniad gwreiddiol ac y dylid gwneud y canlynol:
 - i. Cynnull Pwyllgor newydd i glywed yr achos o'r newydd. Yn yr achos hwn, bydd y Panel Adolygu yn penderfynu a ddylid ailystyried yr achos cyfan, neu elfennau ohono yn unig.
 - ii. Roedd canlyniad y Pwyllgor yn anghymesur o ystyried amgylchiadau'r achos a dylid rhoi canlyniad mwy cymesur yn ei le.
14. Bydd penderfyniad y Panel yn derfynol. Bydd y penderfyniad yn cael ei hysbysu i'r Myfyriwr sy'n Ymateb o fewn pum niwrnod gwaith i'r cyfarfod drwy e-bost i'w gyfrifon e-bost Prifysgol a phersonol; a/neu, lle mynegwyd bod anfon copi caled o ohebiaeth y Brifysgol yn well, i'w cyfeiriad hysbys diwethaf.

This document is available in English. / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

15. Os bydd yr adolygiad yn arwain at newid canlyniad, bydd y Brifysgol yn sicrhau cyn belled ag y bo modd nad yw'r Myfyriwr sy'n Ymateb wedi cael eu rhoi dan anfantais gan unrhyw ganlyniad a benderfynwyd yn flaenorol. Os yw'r myfyriwr yn parhau i fod yn anfodlon â chanlyniad wedi'i newid, gallant ofyn am lythyr Cwblhau Gweithdrefnau gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.
16. Os nad yw'r adolygiad yn arwain at newid canlyniad, bydd y Myfyriwr sy'n Ymateb yn cael llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn awtomatig.